Adran Gwaith
a Phensiynau

# Ffurflen Gais
# Taliad Tanwydd Gaeaf

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.**

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni.

Ein manylion cyswllt yw:

- Ffôn: **0800 731 0160**
- Relay UK: **18001** yna **0800 731 0464**

## I gael Taliad Tanwydd Gaeaf, rhaid i'ch dyddiad geni fod ar neu cyn 21 Medi 1959.

Os cawsoch eich geni ar ôl y dyddiad hwn, nid ydych yn gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf.

Am fanylion cymhwysedd llawn ewch i **www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf.**

### Pwy ddylai wneud cais

Dim ond i bobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y mae Taliad Tanwydd Gaeaf ar gael. Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf yn ei gael yn awtomatig ac nid oes angen iddynt wneud cais.

Llenwch y ffurflen hon dim ond os:

- rydym wedi gofyn i chi wneud, neu
- nid ydych chi'n cael unrhyw fudd-dal DWP na phensiwn ond rydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac eisiau hawlio Taliad Tanwydd Gaeaf.

I ddarganfod mwy ewch i **www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf**.

Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf a gewch yn seiliedig ar eich amgylchiadau yn yr wythnos gymhwyso. Mae rhaid eich bod wedi cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth cyn neu yn ystod yr wythnos gymhwyso i gael Taliad Tanwydd Gaeaf. Ar gyfer gaeaf 2025/2026 yr wythnos gymhwyso yw **15 Medi i 21 Medi 2025 yn gynwysedig.**.

Os yw eich incwm personol yn fwy na £35,000, bydd CThEF yn cymryd eich Taliad Tanwydd Gaeaf yn ôl drwy'r system dreth.

## Statws mewnfudo

Os ydych yn destun i reolaeth fewnfudo ni **allwch wneud cais** am Daliad Tanwydd Gaeaf. Os derbynnir cais gan berson sy'n destun i reolaeth fewnfudo yna ni fydd yn cael ei ganiatáu.

Mae person sy'n destun i reolaeth fewnfudo yn berson:

- nad oes ganddo ganiatâd i ddod i mewn nac i aros yn y Deyrnas Unedig (DU), neu
- sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU ond ni all hawlio arian cyhoeddus, neu
- sy'n fewnfudwr noddedig sydd wedi bod yn y DU am lai na 5 mlynedd neu y mae ei noddwr yn marw cyn iddo fod yn y DU am fwy na 5 mlynedd.

Mae noddwr yr berson arall sy'n gyfrifol am gynhaliaeth a llety mewnfudwr. Gallwch gael mwy o wybodaeth am reoli mewnfudo ar **www.gov.uk**

Os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig a bod eich statws mewnfudo yn newid, mae angen i ni wybod. Os ydych yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ac yn byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 ond heb wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, rhaid i chi a'ch teulu wneud cais ar unwaith.

Os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol, gallwch wneud cais am statws sefydlog. Os oes gennych statws cyn-sefydlog ni fydd hyn yn dod i ben. Gall fod yn fuddiol i chi wneud cais am statws sefydlog os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol.

Os nad oes gennych statws mewnfudo dilys, efallai na fyddwch yn cael Taliadau Tanwydd Gaeaf.

## Darganfod faint rydym wedi'i dalu i'ch cyfrif

Gallwch wirio'ch taliadau ar eich cyfriflenni. Bydd angen i chi edrych ar y datganiadau sy'n dangos gweithgaredd Tachwedd a Rhagfyr. Gall y cyfriflenni ddangos eich rhif Yswiriant Gwladol wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi'u gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â ni ar **0800 731 0160**.

## Os bydd eich amgylchiadau'n newid

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau ar unwaith.

I roi gwybod am newid:

- ffoniwch **0800 731 0160**
- **Relay UK** (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn): **18001** yna **0800 731 0464.**

Os byddwch yn llenwi'r ffurflen hon gan ddefnyddio beiro, defnyddiwch **inc du** a PHRIFLYTHRENNAU. Os ydych chi yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym amdanynt, nid chi.

## Chi

Mae rhaid eich bod wedi cael eich geni ar neu cyn 21 Medi 1959 i wneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf.

**01 Rhif Yswiriant Gwladol**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

**02 Enwau cyntaf, yn llawn**

**03 Enw olaf**

**04 Enwau olaf eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt**

**05 Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**06 Cyfeiriad presennol**

Cod post

**07 Pryd wnaethoch chi symud i'r cyfeiriad hwn?**

**08 Os oes gennych gyfeiriad postio neu flwch post, gallwn gymryd hynny hefyd ar gyfer eich holl ohebiaeth yn y dyfodol**

Cod post

**09 Rhwng 15 i 21 Medi 2025, a oeddech yn destun i reoleth fewnfudo?**

Os ydych yn destun i reolaeth fewnfudo, nid ydych yn gymwys am help gennym. **Nid oes angen** i chi wneud cais

☐ Na

☐ Oeddwn

**10 A yw eich cyfeiriad presennol yn wahanol i'r un a oedd gennych yn ystod yr wythnos gymhwyso 15 i 21 Medi 2025?**

☐ Na Ewch i gwestiwn 13

☐ Ydy

**11 Eich cyfeiriad gan gynnwys cod post, yn ystod yr wythnos gymhwyso 15 i 21 Medi 2025**

Cod post

**12 Pryd wnaethoch chi symud i'r cyfeiriad hwn?**

**13 Oeddech chi'n byw gydag unrhyw un yn ystod yr wythnos gymhwyso o 15 i 21 Medi 2025?**

☐ Na Ewch i gwestiwn 15

☐ Ydw

**14 A oedd unrhyw un rydych yn byw gyda nhw wedi eu geni ar neu cyn 21 Medi 1959?**

☐ Na

☐ Oedd

Beth yw eu dyddiad geni?

## Manylion cyswllt

**Mae rhaid i chi gynnwys o leiaf un rhif ffôn** fel gallwn brosesu'ch cais

**15 Rhif ffôn symudol**

Os oes gennych un

**16 Rhif ffôn cartref**

Os oes gennych un

**17 Rhif ffôn gwaith**

Os oes gennych un

**18 Cyfeiriad e-bost**

Os oes gennych un

## Manylion banc

Dywedwch wrthym i ba gyfrif rydych am i ni dalu eich Taliad Tanwydd Gaeaf iddo. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich cyfrif ar eich cyfriflenni neu ap bancio ar-lein. Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni efallai y bydd unrhyw daliad sy'n ddyledus i chi yn cael ei oedi neu na fyddwch yn ei gael.

**19 Enw ar y cyfrif**

Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y cerdyn debyd neu'r gyfriflen.

**20 Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu**

**21 Cod didoli**

Rhowch y 6 rhif i ni, er enghraifft 12-23-56.

**22 Rhif y cyfrif**

Mae'r rhan fwyaf o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Llenwch y rhifau gan ddechrau yn y blwch cyntaf.

**23 Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu**

Gall hyn fod yn gymysgedd o lythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os nad ydych yn siŵr a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

## Mwy o wybodaeth y mae angen i ni ei gwybod

**24** **Beth yw eich cenedligrwydd?**

[ ]

**25** **Beth yw eich ail genedligrwydd, os oes gennych un?**

[ ]

**26** **Rhwng 15 a 21 Medi 2025, a oeddech yn cael gofal claf mewnol am ddim mewn ysbyty GIG, ysbyty arall neu sefydliad arall?**

- [ ] Na **Ewch i gwestiwn 27**
- [ ] Oeddwn

**Dyddiad derbyn**

[ ]

**Dyddiad gadael**

Os ydych chi'n dal yn yr ysbyty, gadewch hwn yn wag.

[ ]

**27** **Rhwng 15 a 21 Medi 2025 a oeddech mewn gofal preswyl mewn ysbyty annibynnol neu gartref gofal sy'n codi tâl ar ei gleifion neu breswylwyr?**

Mae ysbyty annibynnol yn golygu ysbyty nad yw'n ysbyty Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) lle rydych yn talu am driniaeth.

Mae cartref gofal yn golygu lle sy'n cynnwys llety gyda gofal nyrsio neu ofal personol. Er enghraifft, cartrefi preswyl, cartrefi nyrsio neu lety preswyl awdurdod lleol.

- [ ] Na **Ewch i gwestiwn 28**
- [ ] Oeddwn

**Dyddiad derbyn**

[ ]

**Dyddiad gadael**

Os ydych chi'n dal yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, gadewch hwn yn wag

[ ]

**28** **Rhwng 15 a 21 Medi 2025 a oeddech yn y ddalfa yn cyflawni dedfryd llys?**

- [ ] Na
- [ ] Oeddwn

## Datganiad

Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf a gewch yn seiliedig ar y wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer. Os bydd eich amgylchiadau'n newid, bydd rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith.

Cewch restr lawn o newidiadau y mae angen i chi ddweud wrthym amdanynt ar **www.gov.uk/hysbysu-newid-amgylchiadau-budd-daliadau**

I roi gwybod am newid:

- ffoniwch **0800 731 0160**, neu
- **Relay UK** (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn): **18001** yna **0800 731 0464**.

Os ydym wedi cytuno ar ffordd wahanol i chi gysylltu â ni oherwydd eich anabledd neu'ch cyflwr iechyd, rhowch wybod i ni yn y ffordd arferol.

Os oes gennych Atwrneiaeth ac nad ydych wedi anfon copïau ardystiedig o'ch dogfennau o'r blaen, dylech eu cynnwys gyda'r ffurflen hon. Os mai chi yw'r penodai* ar gyfer y person y mae'r ffurflen hon yn ymwneud â nhw, darllenwch ac yna llofnodwch a dyddiwch y datganiad ar eu rhan.

*Penodai yw rhywun y mae DWP wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran person na all reoli ei faterion ei hun.

Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn cytuno:

- bod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni yn gywir ac yn gyflawn
- byddwch yn dweud wrthym am newidiadau mewn amgylchiadau ar unwaith.

Os yw'r wybodaeth a rowch i ni'n anghywir neu'n anghyflawn, neu os nad ydych yn rhoi gwybod am newidiadau ar unwaith:

- efallai y byddwn yn stopio neu'n lleihau eich Taliad Tanwydd Gaeaf
- efallai y telir gormod o Daliad Tanwydd Gaeaf i chi a bydd rhaid i chi dalu hwn yn ôl
- efallai y bydd rhaid i chi dalu cosb ariannol
- efallai y byddwn yn eich erlyn.

**Eich llofnod**

**Dyddiad y llofnod**

## Anfon eich cais atom

Gwiriwch fod yr holl gwestiynau wedi eu llenwi a'u bod yn gywir cyn anfon eich cais.

**Mae rhaid i chi lofnodi eich cais cyn ei anfon atom.**

**Anfonwch y ffurflen hon i:**

Winter Fuel Payment Centre
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LR

**Mae rhaid i ni gael eich cais am Daliad Tanwydd Gaeaf ar gyfer gaeaf 2025/2026 erbyn 31 Mawrth 2026.**

# Rhagor o wybodaeth

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

## Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

## Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd. trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

## Sianeli cyfryngau cymdeithasol DWP

Dyma gyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP):

**www.youtube.com/dwp**

**www.facebook.com/dwpyngymraeg**

**www.x.com/dwpyngymraeg**

**www.instagram.com/dwpgovuk**

**www.linkedin.com/company/dwp**

## Fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL) DWP

**www.youtube.com/dwpsign**